Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Destination Skin Limited
# House of Fraser
# 14-18 Heol Eglwys Fair
# Caerdydd
# CF10 1TT

# Adroddiad Arolygu 2010-2011

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 029 20 928850
**Ebost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 029 20 928877
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

**75%** wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 6550 2
© Hawlfraint y Goron Medi 2011
WG13325

| Dyddiad yr Arolygiad: | Rheolwr Arolygu: |
|---|---|
| 23 Mawrth 2011 | Miss Sarah Lewis a Mr Ian Dillon |

## Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru sydd, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiad â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiad darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o *'Safonau Gofynnol Cenedlaethol*,' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r safonau a'r rheoliadau ar ein gwefan: **www.hiw.org.uk**

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

## Cefndir a'r Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad lle rhoddwyd rhybudd â Destination Skin ar 23 Mawrth 2011. Cofrestrwyd y sefydliad gyntaf ar 28 Tachwedd 2007 ac y mae wedi'i gofrestru i ddarparu amrywiaeth o driniaethau gan ddefnyddio systemau Golau Pwls Dwys.

Roedd yr ymweliad arolygu yn canolbwyntio ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennau, trafod gyda'r rheolwr cofrestredig ac archwilio cofnodion cleifion.

Darperir manylion ynglŷn â pha safonau sydd wedi / heb eu bodloni a chynhwysir rhestrau manwl o'r gofynion a'r argymhellion a wnaed hefyd.

Nodir prif ganfyddiadau'r arolygiad isod.

## Gwybodaeth am Gleifion

Roedd canllaw i gleifion ar gael ac yr oedd wedi'i arddangos er mwyn i'r cleientiaid gael edrych arno. Mae'r canllaw i gleifion yn cynnwys gwybodaeth megis telerau ac amodau'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer cleifion, gan gynnwys y prisiau i'r cleifion am bob agwedd ar eu triniaethau a'r dulliau talu. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau'r arolwg diweddaraf a gynhaliwyd ymhlith y cleifion. Dylid cynnwys hwn er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd y canllaw i gleifion hefyd yn nodi mai ar wefan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn hytrach nag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, y gallai cleifion weld adroddiadau arolygu. Amlygwyd y mater hwn yn ystod yr arolygiad blaenorol â'r sefydliad hefyd.

Cedwir llyfr triniaethau sy'n cynnwys dyddiad y driniaeth, y man a gafodd ei drin, nifer y pylsiau a llofnod i awdurdodi'r driniaeth. Ar ôl edrych ar sampl o gofnodion cleifion, gwelwyd eu bod yn glir, a bod llofnod a dyddiad wedi eu nodi arnynt. Mae cofnodion y cleifion hefyd yn cynnwys holiaduron meddygol wedi eu cwblhau, a chânt eu diweddaru bob tro er mwyn canfod a oes unrhyw newidiadau yn hanes meddygol y cleifion. Mae'r ffurflenni caniatâd yn cael eu llofnodi yn ystod pob sesiwn triniaeth hefyd.

Ers cofrestru'r sefydliad, nid oes unrhyw gofnod y ceisiwyd adborth gan y cleifion ynglŷn â'r driniaeth a dderbyniwyd.

## Polisïau a Gweithdrefnau

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael, yn ogystal â mynegai a oedd yn cynnwys dyddiad eu llunio. Roedd y polisïau'n cynnwys:

- Polisi chwythu'r chwiban ar gyfer aelodau'r staff pe byddent yn dymuno codi pryderon am gydweithwyr neu arferion gwaith amhriodol yn y sefydliad.
- Polisi cwynion, ac yr oedd gwybodaeth ar gael ynglŷn â sut i wneud cwyn. Ni wnaed unrhyw gwynion ac ni fu unrhyw ddigwyddiadau o fewn y 12 mis diwethaf yn y sefydliad.
- Polisi dadebru sy'n nodi pa gamau y dylid eu cymryd mewn argyfwng pe byddai ar glaf angen ei ddadebru.
- Roedd polisi glanhau wedi'i sefydlu hefyd.

Fodd bynnag, roedd yn bryd diweddaru nifer o'r polisïau gan eu bod wedi eu sefydlu ers dros dair blynedd.

## Diogelwch Amgylcheddol

Yn ystod ein hymweliad â'r sefydliad, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos cydymffurfiad yn y meysydd canlynol; cynhaliwyd asesiad risg amgylcheddol gan y cynghorwr amddiffyn rhag laserau, a 22 Gorffennaf 2010 oedd y tro diwethaf iddo ymweld â'r sefydliad. Ymwelodd y gwasanaethau amddiffyn rhag tân â'r sefydliad ym mis Ebrill 2011 ac y mae'r rheolwr cofrestredig wedi dilyn hyfforddiant ar atal tân. Cynhelir profion larwm tân bob wythnos a chedwir cofnod o fanylion y profion hyn.

## Diogelwch Cyfarpar

Mae'r goruchwyliwr amddiffyn rhag laserau yn y safle bob amser ac y mae'r gweithredwr awdurdodedig wedi llofnodi i nodi ei fod yn deall y rheolau lleol, wedi dilyn hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ac wedi derbyn archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Roedd tystysgrif ar gael i ddangos bod y peiriant laser wedi'i raddnodi ac wedi cael gwasanaeth o fewn y deuddeg mis diwethaf yn unol â'r rheoliadau.

Roedd protocol meddygol arbenigol ar gael, ond nid oedd yr ymarferydd meddygol arbenigol wedi'i lofnodi.

Mae arwydd ar gael i ddangos pan fo’r systemau Golau Pwls Dwys / Laser yn cael eu defnyddio a chaiff y drws ei gloi.

## Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn unol â’r math o wasanaeth a ddarperir. Mae’r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth.

| Disgrifiad |
|---|
| **Ysbyty annibynnol sy’n darparu gwasanaeth rhestredig gan ddefnyddio techneg neu dechnoleg ragnodedig:**<br><br>• **Laser neu ffynhonnell golau pwls dwys.** |

## Amodau’r Cofrestriad

Mae’r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i’r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffurfiad. Disgrifir y dyfarniad fel bod yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

| Rhif yr Amod | Amod y Cofrestriad | Dyfarniad |
|---|---|---|
| 1. | Ni fydd yr unigolyn cofrestredig yn darparu gwasanaethau meddygol na seiciatrig o unrhyw fath nac unrhyw *‘wasanaethau rhestredig’* fel y’u diffinnir gan adran 2(7) Deddf Safonau Gofal 2000, ar wahân i’r rhai a nodir yn amod 2 isod: | Cydymffurfio |
| 2. | Triniaeth yn defnyddio system golau pwls dwys fel y cyfeirir ato yn rheoliad 3(1)(b) o Reoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002. | Cydymffurfio |
| 3. | O ran y driniaeth a nodir yn amod 2 uchod, dim ond yn Ystafelloedd Triniaeth 1, 3 a 4 y caiff yr unigolyn cofrestredig ddefnyddio’r tair System Golau Pwls Dwys Energist Ultra Intense, a hynny dim ond ar gyfer:<br><br>▪ Dileu Blew<br>▪ Ieuangu’r Croen<br>▪ Briwiau Fasgwlaidd<br>▪ Briwiau Pigmentaidd<br>▪ Triniaethau Acne | Cydymffurfio |

| Rhif yr Amod | Amod y Cofrestriad | Dyfarniad |
|---|---|---|
| 4. | Caiff unigolion dan ddeunaw (18) mlwydd oed dderbyn triniaeth pan fo rhiant / gwarcheidwad enwebedig wedi'i gymeradwyo. Mae'n rhaid i'r rhiant / gwarcheidwad enwebedig fod yn bresennol yn ystod yr ymgynghoriad a phan roddir y driniaeth. | Cydymffurfio |
| 5. | Ni cheir darparu llety dros nos yn y sefydliad. | Cydymffurfio |

## Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau o safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen i arolygu'r sefydliad a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth sy'n peri pryder am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

| | |
|---|---|
| Safon wedi ei bodloni | Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad. |
| Safon bron wedi ei bodloni | Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys. |
| Safon heb ei bodloni | Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad. |
| Safon heb ei harolygu | Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu'r asiantaeth neu am y sefydliad neu'r asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn. |

## Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau acíwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall methu â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

## Safonau Craidd

| Rhif | Testun y Safon | Asesiad |
|---|---|---|
| C1 | Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth. | Safon bron wedi ei bodloni |
| C2 | Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf. | Safon wedi ei bodloni |
| C3 | Mae'r triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol. | Safon wedi ei bodloni |
| C4 | Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro. | Safon wedi ei bodloni |
| C5 | Ymdrinnir â gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif. | Amherthnasol |
| C6 | Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion. | Safon bron wedi ei bodloni |
| C7 | Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau. | Safon bron wedi ei bodloni |
| C8 | Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau. | Safon wedi ei bodloni |
| C9 | Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol. | Safon wedi ei bodloni |
| C10 | Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol. | Amherthnasol |
| C11 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol. | Amherthnasol |

| Rhif | Testun y Safon | Asesiad |
|---|---|---|
| C12 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol sy’n cydymffurfio â’u codau ymarfer proffesiynol. | Amherthnasol |
| C13 | Nid yw’r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firysau a gludir yn y gwaed. | Amherthnasol |
| C14 | Caiff plant sy’n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin. | Amherthnasol |
| C15 | Caiff oedolion sy’n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin. | Safon bron wedi ei bodloni |
| C16 | Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion. | Safon wedi ei bodloni |
| C17 | Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn. | Safon wedi ei bodloni |
| C18 | Mae’n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael. | Safon wedi ei bodloni |
| C19 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy’n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy’n mynychu’r safle i gael triniaeth. | Safon bron wedi ei bodloni |
| C20 | Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy’n ddiogel ac mewn cyflwr da. | Safon wedi ei bodloni |
| C21 | Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyo priodol. | Amherthnasol |
| C22 | Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy’n dod i ymweld â’r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy’n gysylltiedig â’r sefydliad, y triniaethau a’r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a’u rheoli’n briodol. | Safon wedi ei bodloni |
| C23 | Mae’r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu. | Safon heb ei harolygu |
| C24 | Mae camau wedi eu sefydlu i sicrhau bod meddyginiaethau’n cael eu rheoli a’u trin yn ddiogel | Amherthnasol |
| C25 | Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel. | Amherthnasol |
| C26 | Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a’u dinistrio yn briodol. | Amherthnasol |
| C27 | Mae’r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal haint a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosibl. | Safon wedi ei bodloni |
| C28 | Ni roddir triniaeth i gleifion drwy ddefnyddio dyfeisiau meddygol halogedig. | Amherthnasol |
| C29 | Caiff cleifion eu dadebru’n briodol ac yn effeithiol. | Safon wedi ei bodloni |
| C30 | Mae contractau’n sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol. | Amherthnasol |
| C31 | Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a’u storio i safonau sy’n bodloni cydymffurfiad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol. | Safon wedi ei bodloni |

| Rhif | Testun y Safon | Asesiad |
|---|---|---|
| C32 | Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol. | Safon wedi ei bodloni |
| C33 | Rhoddir sicrwydd i gleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion. | Safon wedi ei bodloni |
| C34 | Caiff unrhyw waith ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd priodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil. | Amherthnasol |

## Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd

| Rhif | Technegau Rhagnodedig a Safonau Technoleg | Asesiad |
|---|---|---|
| | Laserau Dosbarth 3B a 4 a / neu Ffynonellau Golau Pwls Dwys. | |
| P1 | Gweithdrefnau ar gyfer defnyddio laserau a golau pwls dwys. | Safon bron wedi ei bodloni |
| P2 | Hyfforddiant ar gyfer staff sy'n defnyddio laserau a golau pwls dwys. | Safon wedi ei bodloni |
| P3 | Gweithredu laserau a golau pwls dwys yn ddiogel. | Safon wedi ei bodloni |

## Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

| Atodlen | Manylion | Asesiad |
|---|---|---|
| 1 | Gwybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad o ddiben. | Safon wedi ei bodloni |
| 2 | Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad. | Safon wedi ei bodloni |
| 3 (Rhan I) | Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol. | Safon wedi ei bodloni |
| 3 (Rhan II) | Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harchwilio. | Safon wedi ei bodloni |
| 4 (Rhan I) | Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg. | Amherthnasol |
| 4 (Rhan II) | Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol. | Amherthnasol |

## Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr '*unigolyn cofrestredig*' yw'r gofynion, a chaiff yr unigolyn hwn fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu '*cynllun gweithredu*' yn cadarnhau sut y mae'n bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliad a nodwyd.

| Safon | Rheoliad | Gofyniad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| C1 | 6 (1) (d) | **Canfyddiadau**<br><br>Nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.<br><br>**Camau Gofynnol**<br><br>Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig lunio canllaw ysgrifenedig ar gyfer y sefydliad sy'n cynnwys:<br><br>• Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddaraf a gynhaliwyd, yn unol â rheoliad 16 (3). | Dylid anfon copi wedi'i ddiweddaru o'r canllaw i gleifion i AGIC ar ôl cwblhau ymgynghoriad â'r cleifion. |
| C1 | 6 (1) (e) | **Canfyddiadau**<br><br>Mae'r canllaw i gleifion yn nodi mai ar wefan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol y gall y cleifion weld adroddiadau arolygu.<br><br>**Camau Gofynnol**<br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig ddiweddaru'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau y nodir mai ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y gall y cleifion weld adroddiadau arolygu. | Mae'n rhaid anfon copi o'r canllaw i gleifion diwygiedig i AGIC o fewn 28 niwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn. |

| Safon | Rheoliad | Gofyniad | Amserlen |
|---|---|---|---|
| C6 | 16 (1) (2) a (3) | **Canfyddiadau**<br><br>Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael fod y sefydliad wedi ceisio adborth gan gleifion ynglŷn â'r driniaeth a dderbyniwyd.<br><br>**Camau Gofynnol**<br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y ceisir adborth gan gleifion ac y cynhwysir y wybodaeth yn y canllaw i gleifion. | Mae'n ofynnol i gynnal arolwg ymhlith y cleifion o fewn tri mis a dylid anfon manylion y canlyniad i AGIC. |
| C7 | 8 (1) (dd) | **Canfyddiadau**<br><br>Nid oedd nifer o'r polisïau a'r gweithdrefnau yn ddilys mwyach gan iddynt gael eu llunio dros dair blynedd yn ôl, ac nid oedd dyddiad adolygu wedi'i nodi.<br><br>**Camau Gofynnol**<br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau yr adolygir yr holl bolisïau a gweithdrefnau o fewn yr amserlen ofynnol. | Mae'n rhaid anfon sicrwydd ysgrifenedig i AGIC o fewn 28 niwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn yn nodi sut yr eir i'r afael â'r gofyniad hwn. |
| C19 | 24 (4) (c) (ch) | **Canfyddiadau**<br><br>Nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos bod yr unigolyn cofrestredig wedi dilyn hyfforddiant ar atal tân.<br><br>**Camau Gofynnol**<br>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig ddilyn hyfforddiant ar atal tân. | Mae'n rhaid anfon sicrwydd ysgrifenedig i AGIC o fewn 28 niwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn yn nodi sut yr eir i'r afael â'r gofyniad hwn. |

## Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu i ganllawiau cenedlaethol.  Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

| Safon | Argymhelliad |
|---|---|
| C15 | Argymhellir y dylid cynnal hyfforddiant Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed o fewn y chwe mis nesaf. |
| P1 | Dylai'r ymarferydd meddygol arbenigol lofnodi'r protocol meddygol arbenigol. |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pob gwasanaeth gofal iechyd yng Nghymru.  Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Wneud cyfraniad sylweddol i wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, pa un ai fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalydd, perthynas neu weithiwr.
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd yr adolygir gwasanaethau iechyd.
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, berthnasol a rhwydd cael gafael arni am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol.  Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn.  Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.  Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol.  Dylid cydnabod mai © 2011 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen.  Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED